**Gan ganolbwyntio ar un neu fwy o feysydd craidd dadansoddwch rai o'r datblygiadau a'r nodweddion polisi cyhoeddus ym maes polisi a chynllunio iaith, gan gyfeirio at gyd-destun mwy nag un gymuned ieithyddol. Dylech ddefnyddio ffynonellau data demograffeg iaith perthnasol ynghyd â thrafod iaith fel agwedd ar ymddygiad cymdeithasol, a'r hyn a olyga hynny i unigolion ac i berthynas grwpiau iaith a'i gilydd.**

Cydnadyddir bod cynllunio statws iaith yn un o gonglfeini cynllunio ieithyddol, ac yn yr un modd, mae deddfu a dyfarnu statws i ieithoedd lleiafrifol yn ddatganiadau symbolaidd o'u gwerth. 'Cenedl heb iaith, cenedl heb galon' medde'r idiom Gymreig ac mae iaith yn rhan annatod o hunaniaeth unigolion a chymunedau, rhanbarthau, tirogaethau, gwladwriaethau a chenhedloedd. Gan gyfeirio at waith Anderson (1991) dywed Lewis "drwy iaith, gallwn ddwyn i gof y gorffennol a dychmygu'r dyfodol" (2008,t.8) ac mae'n arwydd o hunaniaeth arbennig. Ond mae'r Gymraeg, fel llawer o ieithoedd lleiafrifol y byd mewn sefyllfa fregus heddiw ac mae cadarnhau a chynyddu eu statws yn holl bwysig i'w dyfodol. Canolbwyntio a wna'r gwaith hwn ar *rai o'r prif ddatblygiadau a'r nodweddion polisi yn ymwneud â chynyddu statws ieithoedd o ogwydd llywodraethol sy'n cynnwys datganiadau ieithoedd 'swyddogol'.* Golyga hyn ffocws benodol ar ddatblygiadau polisi *a deddfwriaeth iaith Llywodraeth Cymru* sy'n ymwneud â'r frwydr dros rhoi statws i'r Gymraeg a'r ymgais i roi mwy o gydraddoldeb iddi o'i chymharu â'r Saesneg. *Cymharir statws deddfwriaethol a pholisi y Gymraeg yng Nghymru â statws y Ffrangeg yng Nganada ar lefel polisi llywodraeth ffederal draws gwlad a chyda pholisi daleithiol Cwebec i ategu at ein deallusrwydd o statws iaith leiafrifol er budd llywodraethiant y Gymraeg.* Y Ffrangeg yw'r iaith leiafrifol yn nhaleithiau Seisnig Canada a Chanada yn ei chyfanrwydd, ond y Ffrangeg yw'r iaith fwyafrifol yng Nghwebec. Cydnabyddir serch hyn, bod y Ffrangeg yn iaith ryngwladol gref er ei bod yn iaith leiafrifol yn nhaleithiau Saesneg Canada, ac mae'r sefyllfa'n dra gwahanol i'r Gymraeg lle gellir ond dod o hyd i ddwysedd daearyddol o siaradwyr yng Nghymru, oni bai am Batagonia. Iaith fyd-eang yw'r Saesneg sy'n dominyddu yng Nghymru a Chanada wrth gwrs. Ar waethaf y gwahaniaethau rhwng y Gymraeg a'r Ffrangeg fel ieithoedd lleiafrifol, cynigia Canada gymhariaeth gyfoethog i'r astudiaeth hon fel model i Gymru, gan fod, chwedl Williams (2012), ei mesurau llywodraethol dylanwandol, ei hisadeiledd ddwyieithog cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau ffederal a'i phwyslais ar gydraddoldeb ieithyddol yn cynnig ymarfer da rhyngwladol i'w hystyried (Cardinal a Llewellyn, 2022,t.231). Dengys yr asturiaeth *natur gymhleth gyd-destunol statws iaith oherwydd amrywiaeth ieithyddol a gwrthdaro pwerau unigrywiaeth a phlwraliaeth sydd ynghlwm wrth hunaniaeth grwpiau a chymdeithasau;"paradocsau cyffredinol polisïau iaith swyddogol a'r cydfodolaeth mynych o bolisïau de jure a de facto anghydnaws"*[1] *(Merkle a Mercier, 2018,t.29) o fewn strwythurau sefydliadol a dynamig asiantaethau-strwythurol diriogaethol a gwladwriaethol; a phwysigrwydd deddfwriaeth ac hawliau ieithoedd lleiafrifol wrth gydnabod 'there are threatened languages and threatening languages'(Merkle a Mercier, 2018,t.17).*

"Nodweddir y gymdeithas **Gymreig** gan fwyafrif uniaith a lleiafrif ddwyieithog sy'n raddol elwa o cydnabyddiaeth sefydliadol gan y Wladwriaeth. Ond, mae'r iaith Gymraeg yn gwynebu anawsterau difrifol i gael i chydnabod fel iaith hanfodol o fewn ei thiriogaeth ei hun"[2](Williams, 2005,t.54). Brwydr oedd ennill statws i'r Gymraeg yn ystod y chwe deg mlynedd diwethaf ac mae cynllunio ar ei chyfer yn cynnwys datganiadau symbolaidd, polisïau iaith, deddfwriaeth a defnydd o'r Gymraeg mewn gweinyddiaeth gyhoeddus (ibid.t.36). Cyfeirir at Gymru fel gwlad ddwyieithog sy'n defnyddio'r Saesneg a'r Gymraeg ac yn hyn o beth, nid yw'n wahanol i fwyafrif y byd sy'n ddwyieithog neu'n amlieithog, ond daeth yr ymgais i roi "cydnabyddiaeth cyfriethiol a pholiticaidd yn hwyr i realiti ddwyieithog cynfodol"[3] (Williams, 1999,t.131).

Dechreuwyd ar siwrne newid statws y Gymraeg gyda 'Ddeddf y Llysoedd Cymreig' 1942, 'Deddf yr Iaith Gymraeg' 1967 ac yna 'Deddf yr Iaith Gymraeg' 1993 a sefydlodd yr egwyddor y dylid trin y Gymraeg a'r

[1] 'the paradoxes of official language policies in general and the frequent coexistence of incompatible de jure and de facto policies'
[2] 'Welsh society is characterised by a unilingual majority and a bilingual minority, which is gradually benefiting from institutionalized recognition by the State. However, the Welsh language faces severe difficulties in being recognised as an essential language within its own territory.'
[3] 'have given belated legal and political recognition to a pre-existent bilingual reality'

Saesneg ar sail cyfartal mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn dilyn sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999 cyhoeddwyd nifer o strategaethau swyddogol oedd yn tanlinellu sut y byddai'n diogelu ac hyrwyddo'r Gymraeg sy'n rhoi'r fframwaith strategol ar gyfer pob gweithgaredd arall (Williams, 2013 yn Lewis a Royles, 2022,t.27) gyda 'Deddf Llywodraeth Cymru' 2006 yn rhoi sail statudol i hyn. Cyhoeddwyd strategaeth gyntaf y Gymraeg, 'Iaith Pawb', yn 2003, gyda'r nod o greu 'Cymru ddwyieithog' a ddisgrifiwyd fel "y ddogfen mwyaf pellgyrhaeddol a gyhoeddwyd eto ar hyrwyddo iaith swyddogol"[4] (Williams, 2005, t.100) gan fabwysiadu cydraddoldeb iaith fel egwyddor. Disodlwyd hon gan 'Iaith fyw: iaith byw' yn 2012 ac yna gan 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr' 2017 a cheir ysytyriaethau canolog o'r Gymraeg mewn deddfau cwmpasog eraill megis 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' 2015 a 'Deddf Gynllunio' 2015 a ddengys y 'troad deddfwriaethol' a greodd isadeiledd gefnogol (Williams, 2022,t.404). Ond 'Mesur y Gymraeg' 2011 oedd y ddeddfwriaeth Gymreig gyntaf i'w llunio yng Nghymru ac a ddatganodd statws swyddogol diamwys i'r Gymraeg gan wahardd trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Sefydlodd swydd Comisiynydd y Gymraeg gyda chyfrifoldebau hybu a hwyluso'r Gymraeg, system osod a gorfodi safonau i'r sector gyhoeddus gan ymchwilio i ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn y chwater canrif ddiwethaf felly gwelwyd statws a swyddogaeth y Gymraeg mewn cymdeithas ddwyieithog yn cael ei chyfreithloni'n fwyfwy ar 'sail sefydliadol' (Carlin a Chriost, 2016,t.95) ac fe adlewyrchir datblygiad polisi iaith mewn system boliticaidd, cyfreithiol a sefydliadol sy'n cydgyfeirio (ibid. t.95).

Daeth y 'troad ieithyddol' yn ganolog mewn ieithoedd leiafrifol pan geisiodd y wladwriaeth fodern gyfrif ei dinasyddion a'u diffinio yn unol â'u perthynas â'r iaith swyddogol (Williams, 1999,t.132) ac yng Nghymru, arweiniodd cyfrifon censws yr ugeinfed ganrif at genedlaetholdeb ieithyddol a gwrthdaro ethno-ieithyddol (Williams, 1999,t.132). Amlygodd canlyniadau 'Cyfrifiad 2021' (Llywodraeth Cymru) yr her deublyg o dyfu siaradwyr a gwarchod cymunedau Cymraeg. Yn 1991 roedd 18.5% o'r boblogath yn siarad Cymraeg (*Ffigwr 1*); 19% neu 562,016 yng 'Nghyfrifiad 2011', ac **17.8%** neu 538,296 yng 'Nghyfrifiad 2021'. Mae hyn yn dra gwahanol i'r amcangyfrifon o 'Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth' (2023) sy'n dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu i **29.7%**, gyda 40.7% rhwng 16-24 oed. Ond mae amcangyfrifon yr 'Arolwg Blynyddol' o allu pobl yn y Gymraeg  neu 906,800 yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad. Dengys 'Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23' *bod* **18%** yn gallu siarad Cymraeg ac **16%** gyda rhywfaint o Gymraeg ac 'Adroddiad Arolwg Cenedlaethol 2018-19' mai pobl 16-24 oed oedd y mwyaf tebygol o siarad Cymraeg gyda ychydig dros 30.0% (*Ffigwr 2*) a bod pobl fwyaf tebygol o siarad Cymraeg yng Ngwynedd, a lleiaf tebygol yng Nghasnewydd (*Ffigwr 3*). Ond mae amcangyfrifon yr arolwg hwn yn uwch na'r Cyfrifiad hefyd. Mae'r gwahaniaethau data yn heriol wrth gefnogi polisi iaith ac mae angen syncroneiddio'r data.

Yng **Nghanada** mater politicaidd yw gweinyddu ieithoedd swyddogol ond cafwyd gwrthdaro rhwng cyfundrefnau iaith ffederal Llywodraeth Canada â rhai Cwebec sy'n dangos diffyg capasiti polisi ieithoedd swyddogol canolog i ymateb i anghenion cymunedau ieithoedd lleiafrifol. Mae Llywodraeth Canada yn hyrwyddo'r ddwy iaith swyddogol - y Saesneg a'r Ffrangeg - a cheir hawliau cyfartal yn eu defnydd mewn sefydliadau ffederal dwyieithog ar draws gwlad. Yn ôl Meylaerts (2011) gellir disgrifio'r polisïau deuol cymathol ffederal fel rhai 'de facto' sydd mewn cydfodolaeth â hawliau unigolion 'de jure' mewn cyfundrefnau ieithyddol daleithiol (Mercle a Mercier, 2018,t.27) lle mae'r naill iaith neu'r llall yn iaith leiafrifol. Yn y system ffederal pwysleisir cydraddoldeb, hawliau, undod gwlad a "phwysigrwydd iaith a diwylliant i ffurfiant a chadwraeth hunaniaeth" (Shadd, 2019,t.189). Argymhellodd 'Adroddiad y Comisiwn Brenhinol ar Ddwyieithrwydd a Dauddiwylliannedd' (1963-69) y dylai statws y Saesneg a'r Ffrangeg gael eu cadarnhau fel y ddwy iaith swyddogol i greu "an equal partnership between the two founding races" (Shadd, 2018, t.192) gan nodi:"We believe that henceforth formal rights must replace simple tolerance and makeshifts. In place of the present de facto bilingualism, more or less precarious, constantly debated, and unequally accepted from one region to another, there must be official bilingualism"(t.193). Canlyniad yr adroddiad oedd y 'Ddeddf Ieithoedd Swyddogol' (1969) a ymgorfforodd ddwyieithrwydd swyddogol y Ffrangeg a'r Saesneg gan roi statws ac hawliau cyfartal iddynt yn yr holl sefydliadau cysylltiedig. Arweiniodd 'Deddf 1969' at 'Siarter Hawliau a Rhyddid Canada' 1982 a newidiodd "y disgwrs ar hawliau ieithyddol fel offerynnau cyfaddawdu politicaidd i hawliau dynol"[5] (Gaspard, 2019,t.83) ac yna at 'Ddeddf Ieithoedd Swyddogol' 1988 lle ymgorffwyd hawliau ieithyddol ffederal yn gyfreithiol am y tro cyntaf, a'i adnewyddu yn 2005 a 2023.

[4] 'the most far-reaching document yet published on official language promotion' (Gwreiddiol)

[5] 'the discourse on language rights [in Canada] shifted from tools for political compromise to one of human rights.'

Mewn gwrthgyferbyniad i bolisi ddwyieithrwydd ar lefel ffederal, ffafrio hunaniaeth 'genedlaethol' diriogaethol ac unieithrwydd swyddogol Ffrangeg a wnaeth **Cwebec**, gan lwyddo i ddiogeli ei hunanreolaeth daleithiol a'i hynodrwydd ethnig (Williams, 2008b yn Cardinal a Llewellyn, 2022,t.226). Arweiniondd 'Deddf Hybu Ffrangeg Cwebec' 1969, 'Deddf Iaith Swyddogol' 1974 a 'Siarter yr Iaith Ffrangeg' 1977 at sefydlu statws i'r Ffrangeg fel yr unig iaith swyddogol ac at gynnydd adeiladol yn y defnydd o'r Ffrangeg, gyda diweddariadau ar ôl hyn megis Bil 96 yn 2022. Disgrifiwyd y Siarter fel dogfen nodedig a ymgorfforai dull diriogaethol o bolisi iaith (Morris, 2010,t.9) ac fel "one of the most comprehensive pieces of language legislation ever enacted" (t.36). Yr hyn sy'n unigryw yw bod Cwebec yn ddwyieithog ar lefel gyfansoddiadol ffederal ond yn uniaith Ffrangeg yn ei sefydliadau taleithiol:"The face of Canada as a bilingual federation had become evident; so had that of Quebec as a French society" (Mackey, 2010,t.145).

Mewn gwrthgyferbyniad i'r Ffrangeg sy'n iaith fwyafrifol yn nhiriogaeth Cwebec, yn y deg talaith a'r ddwy diriogaeth arall yng Nghanada mae'n iaith leiafrifol, ac ynddynt ceir amheuon mawr ynghylch y polisi 'dwyieithrwydd' ffederal ac fe gwtogir ar hawliau Canadiaid Ffrangeg, gyda ffactorau demograffig yn cael eu dynodi fel y rheswm amdano (Erfurt, 2010,t.232). Felly, er bod polisi ffederal Canada yn pwysleisio cydberthynas 'dwyieithrwydd' drwy'r wlad, rhagfarnwyd y Ffrangeg tu allan i Cwebec, tra ffafrwyd y Ffrangeg o fewn Cwebec (Morris, 2010,t.7). Noda Castonguay (2022,t.271):"Ym mhob man y tu allan i Cwebec, ag eithrio New Brunswick, mae Saesnegeiddio Canadiaid Ffrangeg nawr dros 50% a'r Ffrangeg fel iaith cartref o dan 2%"[6] o'i gymharu â Cwebec "lle mae 91% o'r holl Ganadiaid yn siarad Ffrangeg fel iaith cartref'[7](t.272) gan danlinellu 'wrth fframio ei bolisi iaith, roedd Canada yn anelu'n fwy i atal cenedlaetholdeb Cwebec nag yr oedd at atgyfnerthu'r Ffrangeg yn effeithiol"[8](t.272).

Dengys 'Cyfrifiad Canada 2021' (Ystadegau Canada) mai Ffrangeg yw'r iaith swyddogol gyntaf a siaradir yng Nghanada gan **21.4%** *o'r* boblogaeth (Ffigwr 4) o'i gymharu a 22.8% yn 2016 **(**Ffigwr 5/6). Roedd **82.2%** yn Ganadiaid Ffrangeg yn Cwebec yn 2021 (Ffigwr 7) i'w gymharu gyda bron i 7 miliwn neu 85.4% yn 2016 gyda niferoedd bychan iawn yn y taleithiau a'r tiriogaethau eraill (Ffigwr8/9) a ddengys y disgyniad yn ystod y cyfnod, ond Cwebec a fedda ar y lefel uchaf o ddwyieithrwydd (40.8%, Ffigwr 10) yng Nghanada. Felly, gwelir disgyniad yn nwysedd Canadiaid Ffrangeg yng Nghanada gyfan a Chwebec.

Wrth werthuso demograffi Cymru a Canada yng Nghyfrifiadau 2021 mae maint y gwledydd a'r ffigyrau cymharol byd ar wahan, ond o'u hystyried yn llythrennol o fewn eu cyd-destunau eu hunain, gwelir bod canran y Cymry Cymraeg (17.8%) o'i gymharu gyda Canadiaid Ffrangeg yng Nghwebec (82.2%) a 21.4% yng Nghanada yn dangos bod hyfywedd yr iaith Gymraeg dipyn is. Serch hyn tuag i lawr yw'r taflwybrau mewn niferoedd siaradwyr y Gymraeg yng Nghymru a'r Ffrangeg yng Nghanada gyfan a Chwebec. Ond, yn gyffredinol, dengys ystadegau Canada sy'n cynnal cyfrifiad bob pum mlynedd, allu aruthrol wrth grynhoi data ar draws gwlad, dadansoddi trylwyr a phwyslais ar grynhoi data cyson hirdymor ar draws degawdau. Gwan iawn, annatblygiedig ac anghyson ymddengys data Cymru o'i gymharu ag ef sy'n effeithio ar gynllunio'r Gymraeg.

*Yng nghyd-destunau Cymru a Chanada/Cwebec, gellir crynhoi prif ddatblygiadau a nodweddion polisi gyhoeddus yn ymwneud â statws ieithoedd leiafrifol o fewn mecanwaith lywodraethol a deddfwriathol fel a ganlyn:*

**Hunaniaeth:** Gan fod statws iaith yn ymwneud â rolau iaith a'i siaradwyr mewn cyd-destun politicaidd, gymdeithasol a ddiwylliannol benodol (Gazzola et al, 2023,t.8), a all gynnwys ieithoedd awdurdodol neu fyd-eang, un o gymhelliannau newid ieithyddol yw'r dyhead amlwg i amddiffyn ffiniau grwpiau ieithyddol unigryw sy'n ymwneud â grymoedd pŵer, ideoleg ac hunaniaeth. Ceir yna wrthdaro wrth i grwpiau frwydro i ddiogelu eu hiaith a'u diwylliant a ddengys y ddau rym sy'n ein rhwymo fel bodau dynol – ein gwahaniaethau a'n cyd-ddibyniaeth (Edwards, 2024,t.51), a daw statws iaith a'i defnydd at ddibenion neu barthau gwahanol a diogelu hunaniaeth yn fater dybryd i bobloedd lleiafrifol.Yn sgil bygythiad globaleiddio i ieithoedd leiafrifol o statws isel gellir dweud "the intertwinings of languages have suggested.. the need for intervention .. and of the protection of small or threatened languages"(Edwards, 2024,t.53). Daw rôl statws a pholisïau iaith i'r amlwg felly, yn enwedig wrth ddosbarthu pŵer, adnoddau ac hyfywedd iaith leiafrifol:

[6] 'Everywhere outside Quebec, save in New Brunswick, Anglicisation of Francophones is now over 50% and French home language below 2%.'

[7] 'Quebec now includes over 91% of all Canadians who actively speak French as main hone language'

[8] 'In framing its language policy, Canada was more set on countering Quebec nationalism than on effectively bolstering French.'

> Language policy gets onto the political agenda when political actors believe that something important is at stake regarding the status and/or use of languages in their society, and that these stakes call for intervention by the state. (Schmidt, t.97)

Nodweddwyd y broses o roi statws i ieithoedd lleiafrifol y Gymraeg a'r Ffrangeg yng Nghanada a Chwebec gan lwybrau hir a phoenus, ond gan mai "brwydyr ryngwladol yw brwydr iaith" (Jones, 2022,t.97) gellir deall a chyfoethogi ein deallusrwydd o ieithoedd leiafrifol eraill drwy edrych y tu hwnt i ffin ein cenedl ein hunain. Mae statws iaith leiafrifol yn fater politicaidd ac yn ôl Schmidt (2006,t.104) mae mwy o gydraddoldeb angen polisi iaith sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith y boblogaeth, ac wrth gydymffurfio â'r norm rhyngwladol, ymddengys y Cynulliad Cenedlaethol dwyieithog yn fodern a chynhwysol drwy wasanaethu yn y ddwy iaith hanesyddol (Williams,1999,t.131). Yn gyferbyniol, er mai polisi 'dwyieithrwydd' ffederal a geir ar draws Canada, polisi unieithrwydd Ffrangeg diriogaethol a geir yng Nhwebec. Mae Cymru a Chwebec yn genhedloedd ac yn genedl-wladwriaethau o fewn tiriogaethau fwy wrth gwrs – Canada a'r Deyrnas Unedig - ond mae polisi unieithrwydd diriogaethol Cwebec ynghlwm wrth ddwysedd uchel iawn o Ganadiaid Ffrangeg - 82.2% yn 2021 – o'i gymaru â 17.8% yng Nghymru sy'n Gymry Cymraeg.

Ond dwy gymuned uniaith sydd yng Nghanada a'r brif bont rhyddynt yw'r polisi ddwyieithog ffederal (Gaspard, 2019,t.ix). O bwys, nodir "bilingual counties are not created to promote bilingualism but to guarantee the maintenance and use of two languages" (2022, t.245) ond beiriniadaeth arwynebol ar bolisi ffederal Canada oedd ei fod yn ceisio gwneud pawb yn ddwyieithog a chan nad yw pawb yn ddwyieithog, dadleuwyd bod y polisi yn fethiant (Fraser, 2022,t.246). Mewn gwirionedd, hyrwyddo dwyiethrwydd yn nhermau dwy hunaniaeth unigryw y Canadiaiad Saesneg a Ffrangeg a wnaed. Yng Nghanada ni all tua 90% o Ganadiaid Saesneg siarad Ffrangeg ac ni all oddeutu 60% o Ganadiaid Ffrangeg siarad Saesneg (Fraser, 2022,t.246).

Gyda dwysedd demograffig Ffrangeg yng Nghwebec llunir ei pholisi uniaith ar egwyddor diriogaethol yn ffocysu ar dwf o fewn y dalaith, lle seilir y system ieithyddol ffederal ar unigolyn yn integreiddio i fewn i gymuned o'i ddewis ei hun:'By making language an individual rather than group or territorially based right, official language minorities..could interact with their federal government in their language of choice'(Gaspard,2019,t.10-11).

Arwydda hyn at ddwy ffaith: rôl dwysedd demograffig fel sail i bolisiau iaith swyddogol Canada a'r egwyddor boliticaidd wrth eu llunio:"The goal of official languages was to include Quebec into the rest of Canada not reify its distinctness" (ibid.t.10).Yng Nghymru, nid oes dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg a cheir dwyieithrwydd fel nod i ddysgu a chynnyddu'r Gymraeg lle defnyddir 'iaith-fel-hunaniaeth' i hybu'r iaith Gymraeg (Llewellyn, 2018,t.135).

At bwrpas diogeli ac adfywio statws ieithoedd lleiafrifol felly, arsylwaf ym mholisïau normadol o ddwyieithrwydd swyddogol bod grymoedd cynhwysol ac adeiladol neu rai sy'n gwahaniaethu, oherwydd fe'u cyplysir gan iaith gymhathol fwyafrifol sy'n gwanhau posibiliadau llwyddiant i'r iaith leiafrifol. Dengys lywodraethiant iaith Cymru, Canada a Cwebec werthoedd penodol ynghylch dwyieithrwydd a chynhaliaeth iaith yng nghyd-destun golau cymdeithasol (Bianco, 2016) a thensiynau rhwng "effeithiolrwydd a dadleuon unoli yn ffafrio un iaith weinyddol awdurdodol a dadleuon democratiaeth cyfiawnder gymdeithasol sy'n ffafrio adnabyddiaeth plwraliaeth ieithoedd"[9] (Williams, 1999,t.130), a chan atseinio Tollefson (1991,t.10) "so deeply engrained is the presumption of unilingual efficiency that it becomes reproduced as a common-sense solution to bilingualism.and justifies exclusionary policies which sustain inequality". Cyfeiria Williams (1999,t.131) hefyd at y tueddiad i ddelio gyda plwraliaeth ieithyddol drwy freintio un iaith fel yr unig iaith ddilys ar gyfer llywodraethiant, a dywed Mackey (2010,t.67):"Public policy can include the selection of a single language variety as the language of power while legitimizing its use and rewarding its users. It can exclude all other varieties and languages by restricting their use and penalizing their users".

Arsylwaf hefyd bod ynganiad 'dwyieithrwydd' ym mholisïau Cymru a Chanada yn dra gwahanol – polisïau Cymru'n cyfeirio at ddwyieithrwydd drwy ffocysu ar dwf y Gymraeg, lle yng Nghanada, ceir pwyslais polisi ar ddwyieithrwydd yn nhermau hywyddo dwy hunaniaeth y Canadiaid ac fel modd i gynnig 'cydraddoldeb'. Hefyd, mae'r polisïau dwyieithrwydd ffederal yng Nghwebec yn brwydro yn erbyn polisïau unieithrwydd daleithiol y Ffrangeg ac yng anghefnogol i iaith leiafrifol.

[9] 'efficiency and state-unifying arguments favouring the dominance of one administrative language and social-justice democracy arguments which favour the recognition of a plurality of languages'

**Statws swyddogol:** Gall rhoi statws swyddogol i iaith leiafrifol felly fod yn symbyliad politicaidd (Mercle a Mercier, 2018,t.11). Disgrifia Edwards (2024,t.57) statws iaith fel "a social exercise, extra-linguistic in nature" ac yn ôl Bright (1992) mae statws iaith yn ymwneud ag 'agweddau a goblygiadau politicaidd dewisiadau iaith'[10] (Llewellyn, 2018,t.130). Gwir hefyd yw'r ffaith "A long history of being used for most purposes in the most important domains of society enhances the status of a language" (Mackay, 2010,t.100) a rhydd hyn fanteision i'r iaith honno. Noder hefyd:"The distinction between prestige, function and status is like the difference between past, present and future. The interplay between them is both cyclical and cumulative" (Mackay, 2010, t.101).

Cynhwysai 'Un Cymru' (Llywodraeth Cymru,2007) addewidion am fesur i gadarnhau 'statws swyddogol' y Gymraeg a'r Saesneg ac hawliau ieithyddol ond bu cryn ddadlau gyda San Steffan oherwydd natur gyfansoddiadol y Deyrnas Unedig gan nad yw'n norm o fewn Cyfraith Gwlad i wneud datganiadau ynghylch statws swyddogol iaith ac am hawliau unigolyn fel rhai 'de jure' a dywed Lewis a Royles (2019 yn 2022,t.30) wrth "gysudro ffactorau sefydliadol a all ddylanwadu ar rhai o ddeilliannau polisi iaith mae yna werth mewn mabwysiadu perspectif amlhaenog sy'n cydnabod y gall trafodaethau polisi gael eu dylanwadu gan strwythurau sefydliadol a dynamig asiantaeth-strwythurol ar wahanol lefelau tiriogaethol"[11]. Cyn sefydlu'r Cynulliad crewyd deddfau a pholisiau Cymru gan Lywodraeth Prydeinig San Steffan a chan nad oes ganddi gyfansoddiad ysgrifenedig nid oes datganiad ffurfiol o statws swyddogol y Saesneg ac felly disgrifir Saesneg fel iaith swyddogol 'de facto' yng Nghymru gan mai Saesneg yw unig iaith Senedd y Deyrnas Unedig. Gweithredir cyfundrefn Cyfraith Gwlad yng Nghymru a Lloegr sy'n "anghroesawgar i ieithoedd swyddogol" ac mi fyddai'n ddefnyddiol gwahaniaethu rhyngddo a chyfraith statudol (Chríost, 2016,tt.195-6). Wrth gwrs, rhagdybodd Cymdeithas yr Iaith (2001) y byddai rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yn "rhoi hwb seicolegol i'w siaradwyr" a chafwyd shifft yn ystod llwybyr deddfwriaethol 'Mesur 2011', o'r syniad o hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg megis a ffafrwyd yn 'Neddf 1993' a 'Deddf Llywodraeth Cymru 2006', i eiriad gweithredol mwy pendant:"While lacking the unambiguous simplicity of being of equal status, this wording allows for the Welsh language to be treated more favourably than English" gyda pwerau'r Comisiynydd yn ffocysu ar gydraddoldeb i'r Gymraeg (Chríost, 2016,tt.192-3). Nodir hefyd, gan gyfeirio at egwyddor Deddf 1993:

> the principle set in the Act that 'the Welsh and English languages should be treated on the basis of equality', while under the Measure the notion of equality is noticeable only by its absence. Thus the UK government and the Welsh government would appear to be in different directions of travel.(ibid.t.194)

Yn yr un modd, er bod 'Bil 96 Siarter yng Nghwebec 2022' wedi gwneud newid unochrog i Gyfansoddiad Canada yn datgan bod Cwebec yn genedl ac mai'r Ffrangeg oedd ei hunig iaith swyddogol mae'r frwydr gyda Llywodraeth Canada yn parhau, ond defnyddiol yw sylwad Chriost (2016,t.196) ynghylch Cyfansoddiad Canada:

> there does not appear to be a universal constitutional or legal principle that causes it to be necessarily unhelpful to declare a de jure official language in Common Law jurisdictions or in the context of an uncodified constitution. Rather, opposition to doing so is merely a matter of political judgement and practical consideration.

Felly, canfyddaf effeithiau strwythurau sefydliadol a dynamig asiantaethau-strwythurol diriogaethol a gwladwriaethol wrth ddeddfu'n ranbarthol ym mrwydrau statws gyfreithiol, barnwrol a gweinyddol ieithoedd lleiafrifol yng Nghymru a Chwebec:"whether the countries are federated states, where several linguistic communities have historically coexisted (e.g.Canada)..or countries or states have legislated...to meet the demands of minority-language groups (e.g.the Welsh in the United Kingdom)"(Mercle a Mercier, 2018, t.7). Gwelir, o ganlyniad, bod polisïau dwyieithog swyddogol Cymru a Chanada ffederal yn atebion politicaidd a chyfreithiol i broblemau a wneir â chwlwm hanesyddol â thiriogaethol ieithoedd mwyafrifol a lleiafrifol gan gydnabod:"Conferring official language status on a language of limited diffusion ..may be politically motivated", a'i fod yn hanfodol wrth gefnogaeth boliticaidd yr holl gymunedau ieithyddol swyddogol ac a

[10] 'to do with attitudes and political implications of language choices'

[11] 'when considering the institutional factors that may influence particular language policy outcomes there is value in adopting a multi-level perspective that recognises that policy deliberations can be influences by institutional configurations and agency-structure dynamics located at various territorial levels'

fynegir drwy fuddsoddiad mewn sefydliadau gan ddeddfwriaeth iaith swyddogol i alluogi dinasyddion lleiafrifol i gyfathrebu yn eu hiaith (ibid.t.11-12).

Arsylwaf hefyd, o ganlyniad i'r pwyslais ar gyfartalwch statws i'r Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru a datblygiadau polisi a deddfwriaethol "mae'r Gymraeg wedi dod yn fwy gweladwy, gyda'r ymdeimlad newydd ei bod yn rhan o hunaniaeth yr holl Gymry, p'un ai ydynt yn siaradwyr Cymraeg ai peidio"[12](Kaufmann 2012 yn Llewellyn, 2018,t.126), ac yng ngeiriau Musk (2010) "Mae cadarnhau Cymru fel gwlad dwyieithog wedi bod yn bolisi allweddol yn y broses datganoli o'r dechrau"[13](Llewellyn, 2018,t.129). Yn gadarnhaol noda Williams yn 2013 (Llewellyn, 2018,t.145) "legislative devolution, a new language regime and a new basis for language policy all suggest more powerful reform measures designed to boost the fortunes of the Welsh language" a gellir dweud felly bod statws y Gymraeg yn cynyddu o ganlyniad i'w hyrwyddo a'i defnydd yn y sector gyhoeddus a llywodraethol. Ond gan iddi ond ennill ei statws yn 2011, rydym dros hanner canrif ar ôl Canada o safbwynt deddfwriaeth ieithoedd swyddogol.

**Troad deddwriaethol:** Er bod ieithoedd swyddogol megis y Ffrangeg a'r Saesneg yng Nghanada, a'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru yn mwynhau statws cyfreithiol cyfartal, yn aml ni esbonir sut gellid cyflawni cydraddoldeb yn ymarferol ac o ganlyniad "they are unable to enforce official language use, provide adequate funds and infrastructure, resolve conflicting interests and entrenched hostilities, and counter the homogenizing processes of globalisation"(Mercle a Mercier, 2018,t.15).

Ym model iaith Canada gwelir 'paradocs polisïau ieithoedd swyddogol yn gyffredinol a chydfodolaeth mynych polisïau de jure a de facto yn benodol' (Mercle a Mercier, 2018, t.29) – y rhai de facto trefedigaethol o anghydraddoldeb ac hawliau ieithyddol cyfreithiol de jure unigolion. Drwy rhoi cydraddoldeb i'r ddwy iaith yn y system ffederal rhoddwyd yr un driniaeth i'r Saesneg (iaith fyd-eang gref) a'r Ffrangeg fel iaith leiafrifol, ac o ganlyniad "it thus becomes necessary to exercise caution when applying a de jure model or policy because of the existence of de facto policies that must be accommodated for the de jure policy to be sustainable" (ibid.t.27). Yn ôl Mercle a Mercier (ibid.t.12) felly, ar waethaf i'r Ffrangeg dderbyn statws swyddogol yn y system ffederal, canlyniadau siomedig oedd iddo o safbwynt llwyddo i gyrraedd nodau ieithyddol swyddogol gan ei fod yn ail-greu anghyfiawnder ac hierarchiaeth. Dengys hyn baradocs polisïau ieithoedd swyddogol yn gyffredinol gan eu bod yn atgynhyrchu'r disgwrs politicaidd awdurdodol y maent yn tyfu ohono gan greu effeithiau negyddol sy'n anghydfynd â'r egwyddorion gwreiddiol (ibid.t.23). Yn ogystal, "no policy stands out as fully sustainable, be it from a political, ethical, social, ethnic, demographic, or economic standpoint, which is a consequence .. of the paradoxes inherent to the globalized context in which these policies are embedded"(ibid. tt.14-15), ac yn wir:

> By priveleging one version of Canadian history (that of two colonial powers) over another (that of the colonized), official bilingualism has reinforced the very inequalities it sought to combat..linguistic diversity is therefore as much a result of historical and social processes as of discursive processes, which also need to be accounted for when gauging the effectiveness, fairness and sustainability of a given official policy. (Mercle a Mercier, 2018, tt.23-24)

Ond er bod 'dwyieithrwydd sefydliadol' y system ffederal yn hybu gwasanaethau dwyieithog nid yw'n ymyrryd mewn penderyniadau personol yn ymwneud ag iaith ac addysg – gwelir ef fel dull gytbwys i hybu cydberthynas ar draws y taleithiau ac fel modd i ymgorffori cydraddoldeb yn gyfreithiol. Yn gritigol "mae'r dull marchnad agored yma yn unochrog o blaid iaith fwyafrifol y wlad, Saesneg, ar draul Ffrangeg"[14] (Morris, 2010,t.8). Dadleua Castonguay (2022) hefyd na fu polisi swyddogol ffederal Canada a'r hawliau ieithyddol yn ddigonol i atal dirywiad y Ffrangeg yng Nghanada a Chwebec gan wanhau bolisi ieithyddol Cwebec hefyd (McLeod et al, 2022,t.11). Serch hyn:

> mae'r hyn mae Canada wedi llwyddo ei wneud gyda ieithoedd swyddogol yn gyffredinol yn eithriadol. Mewn cenhedlaeth, mae deddfwriaeth wedi cefnogi trawsffurfiad cyfansoddiad y sector gyhoeddus a'i allu i wasanaethu dinasyddion yn eu dewis o iaith. O safbwynt gymdeithasol, gwelir ieithoedd

[12] 'Welsh has become more visible, with a new sense that it is part of all Welsh people's identity, be they Welsh speakers or not'

[13] 'Cementing Wales as a bilingual nation has been a key policy within the devolution process from the start'

[14] 'this free-market approach as being ultimately biased in favour of the majority language of the country, Englis, at the expense of French.'

swyddogol yn gyffredinol fel dilysnod hunaniaeth Canadaidd. Mae'r realiti hwn yn tarddu o newid sefydliadol mawr[15] (Gaspard, 2019,t.99).

